# Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol

*Adroddiad i Senedd y Deyrnas Unedig 2023*

# Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol

## *Adroddiad yr MPTS i Senedd y Deyrnas Unedig 2023*

*Cyflwynwyd i Senedd y DU yn unol ag adran 52B o Ddeddf Meddygaeth 1983 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol) 2008 (Rhif OS 1774).*

MPTS Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol

# Adroddiad i Senedd y Deyrnas Unedig 2023




ST. JAMES'S
BUILDINGS

# Cynnwys


**Rhagair** 3

**Adolygu 2023** 5
- Gwrandawiadau rhithiol 5
- Diwygio rheoleiddio 5
- Cost gwrandawiadau 6

**Ein harweinyddiaeth** 7
- Ein Pwyllgor 8
- Ein rheolwyr 8
- Ein gweledigaeth 9

**Gwneud penderfyniadau** 10
- Aelodau'r tribiwnlys 11
- Amrywiaeth aelodau'r tribiwnlysoedd 11
- Hyfforddi aelodau'r tribiwnlysoedd 12
- Datblygu aelodau tribiwnlysoedd 12
- Sicrhau ansawdd penderfyniadau tribiwnlysoedd 12
- Pwyntiau dysgu a gyhoeddwyd gan y Grŵp Sicrhau Ansawdd 13
- Diweddariadau i ganllawiau'r tribiwnlysoedd 13

**Tryloywder** 14
- Gwrandawiadau cyhoeddus 15
- Cyhoeddi penderfyniadau 15
- Cofrestrau buddiannau 16
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant 16
- Atgyfeiriadau anghymesur 16
- Cysylltu â defnyddwyr yr MPTS 17

# Cynnwys


**Canlyniadau gwrandawiadau yn 2023** 18

Gwrandawiadau tribiwnlys gorchmynion interim – achosion newydd 19
Gwrandawiadau tribiwnlysoedd gorchmynion interim – adolygiadau 19
Atgyfeiriadau i brif wrandawiad 20
Gwrandawiadau tribiwnlys ymarferwyr meddygol – achosion newydd 20
Lleoliad gwrandawiadau 21
Mathau o amhariad honedig yn 2023 22
Ynglŷn â'r meddygon sy'n mynd i wrandawiadau MPT newydd yn 2023 23
Gwrandawiadau diffyg cydymffurfio 24
Gwrandawiadau adfer 25
Gwrandawiadau adolygu MPT 25

**Cynrychiolaeth a phresenoldeb** 26

Meddygon heb gynrychiolaeth gyfreithiol 28
Absenoldeb meddygon 29
Cynrychiolaeth a phresenoldeb yn ôl ethnigrwydd 29
Cymorth i dystion 30

**Apeliadau** 31

Sut rydym yn ymateb i ddyfarniadau apêl 32
Canlyniadau'r apêl 33

# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol (MPTS) i'r Senedd ar gyfer 2023.

Rwyf bellach wedi cwblhau fy mlwyddyn lawn gyntaf fel Cadeirydd y Gwasanaeth ac rwy'n ddiolchgar iawn am y gefnogaeth a'r croeso cynnes a roddwyd i mi gan fy nghydweithwyr a phawb rwyf wedi cwrdd â nhw yn ystod y cyfnod hwn.

Mae ein tribiwnlysoedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ynghylch addasrwydd meddygon i ymarfer, gan gynnal ein hamcan cyffredinol i ddiogelu'r cyhoedd. Mae'r gwaith hwn yn heriol i bawb sy'n gysylltiedig. Mae'r gofal a'r ymroddiad a ddangoswyd gan fy nghydweithwyr newydd wedi creu argraff arnaf, wrth iddynt sicrhau bod ein prosesau'n rhedeg yn esmwyth, gan gydbwyso effeithlonrwydd a phryder ynghylch anghenion unigolion.

Rydym yn ymwybodol bod y profiad o fod yn rhan o wrandawiad tribiwnlys yn gallu achosi straen a gofid, ac mae cadw gwrandawiadau i fynd yn hwylus yn un ffordd o leddfu straen gwrandawiad.

Yn hyn o beth, rwy'n canolbwyntio ar sicrhau nad yw gohiriadau'n dod yn nodwedd o'n gwrandawiadau. Fel cyn Farnwr Llys y Goron, gwn am yr effaith andwyol y gall gohiriadau ei chael ar bartïon a thystion, ac ar hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn nhegwch y system. O ganlyniad, yn 2023, rydym wedi cyflwyno mesurau i leihau nifer y gohiriadau diangen.

Eleni, mae hyfforddiant blynyddol ar gyfer aelodau ein tribiwnlys wedi pwysleisio rheoli amser, ac wedi nodi ffyrdd o ragweld ac achub y blaen ar ohiriadau mewn gwrandawiadau. Ar ben hynny, rydym wedi gwella'r gwaith o gynllunio ymlaen llaw, gyda chyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) yn darparu gwybodaeth well am nifer yr atgyfeiriadau sy'n dod i mewn er mwyn galluogi'r MPTS i gynllunio a rhestru'n fwy effeithiol.

Ar ben hynny, rydym wedi adeiladu ar ein hadolygiadau misol presennol o themâu a phwyntiau gweithredu sy'n deillio o ohiriadau heb eu cynllunio, a'n hadroddiadau chwarterol i'n Pwyllgor MPTS statudol. Mae hyn yn darparu goruchwyliaeth bellach ar y mater pwysig hwn, wrth i ni geisio mynd at wraidd y rhesymau dros ohirio mewn ffordd systematig a thrylwyr.

Mae ein tribiwnlysoedd yn cyflawni swyddogaeth bwysig i amddiffyn y cyhoedd, ond rydym hefyd yn ofalus i beidio â cholli golwg ar effaith ein gwaith a'n penderfyniadau ar fywydau'r meddygon sy'n cael eu cyfeirio at wrandawiad ac ar fywydau'r tystion dan sylw. Mae'n hollbwysig bod ein penderfyniadau'n deg ac yn gymesur, a'u bod yn cael eu gweld felly, ac ein bod ni'n agored i graffu ar sail gwybodaeth yn hyn o beth.

# Rhagair

Er mwyn cynyddu dealltwriaeth o waith yr MPTS, dros y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi manteisio ar gyfleoedd i siarad ag amrywiol grwpiau o feddygon, gyda'r nod o roi cyd-destun a gwybodaeth bwysig iddynt. Yn benodol, rwy'n ceisio tynnu sylw at y ffaith mai ychydig o feddygon sy'n ymddangos gerbron ein tribiwnlysoedd. Mae gan y gofrestr feddygol dros 370,000 o enwau, gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt yn gwneud eu gwaith ac yn byw mewn modd na fydd byth yn destun atgyfeiriad at dribiwnlys yr MPTS. Yn 2023, dim ond 231 gafodd eu cyfeirio atom ni o'r newydd ar gyfer prif wrandawiad, sy'n llai na 0.07% o boblogaeth meddygon yn y Deyrnas Unedig.

Yn anochel, ceir adroddiadau eang ar y nifer fach o achosion a gyfeirir atom, a gall hyn greu anghydbwysedd yn y canfyddiad o'n gwaith. Wrth dreulio amser gyda meddygon, rwyf wedi rhannu data ar ganlyniadau ein gwrandawiadau tribiwnlys, gyda'r nod o ddarparu deunydd y gallant ei ddefnyddio i ffurfio barn gymesur a gwybodus. Er enghraifft, mae wedi bod yn syndod ac yn gysur i lawer, nad yw meddyg erioed yn hanes yr MPTS wedi cael ei ddileu oddi ar y gofrestr ar sail un digwyddiad clinigol. Rwy'n bwriadu parhau i gwrdd â meddygon a siarad â nhw drwy gydol 2024.

Yn aml, mae'r sgyrsiau hyn hefyd yn ymdrin â'r anghymesuredd sy'n amlwg mewn atgyfeiriadau atom ni: yn benodol meddygon o leiafrifoedd ethnig a meddygon sydd wedi eu hyfforddi y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Rydym yn croesawu gwaith y GMC i fynd i'r afael â'r mater hwn ar yr adeg mae cyflogwyr yn cyfeirio achosion ato. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau ein hunain ac eraill nad oes cysylltiad rhwng nodweddion gwarchodedig meddyg a difrifoldeb canlyniad gwrandawiad. Bydd yr MPTS yn parhau i gyhoeddi data ar mater hwn ac yn cefnogi ymchwil i roi'r sicrwydd hwnnw.

Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda'n cymheiriaid yn y GMC ar ddiwygio rheoleiddio, wrth i ni baratoi i fod yn ddyfarnwr aml-broffesiwn.



Bydd *Gorchymyn Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol 2024* yn ein gwneud yn ddyfarnwr ar gyfer achosion sy'n cynnwys Cymdeithion Meddygol a Chymdeithion Anesthesia. Er bod y nifer disgwyliedig o achosion yn isel, bydd y fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer y gwrandawiadau hyn yn dempled ar gyfer diwygio'r broses addasrwydd i ymarfer ar gyfer meddygon yn y dyfodol.

D. Taylor.

**Ei Hanrhydedd Deborah Taylor**
Mehefin 2023

# Adolygu 2023

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar ein hadferiad gweithredol o effaith pandemig COVID-19 – gan ddal i fyny â'r diwrnodau gwrandawiadau a gollwyd yn 2020. Rwy'n falch iawn ein bod ni wedi gallu dychwelyd y llynedd i'r un math o nifer o wrandawiadau ag yr oedd cyn y pandemig, a'n bod ni bellach yn cynnal nifer debyg o wrandawiadau â blynyddoedd 2018 a 2019.

## Gwrandawiadau rhithiol

Yn yr un modd â llawer o sefydliadau, roedd y pandemig yn peri heriau i ni, ond roedd hefyd yn ein hannog i wella ein defnydd o dechnoleg. Yn awr, mae ychydig dros hanner ein hamser yn cael ei dreulio'n cynnal rhith wrandawiadau tribiwnlys ymarferwyr meddygol (MPT) ac mae ein holl dribiwnlysoedd gorchmynion interim yn cael eu cynnal ar-lein. Mae rhith-wrandawiadau tribiwnlysoedd gorchmynion interim yn golygu y gall meddygon a'u timau cyfreithiol ddeialu i mewn o'u cartrefi neu eu gweithle, yn hytrach na mynd i gost ac anhwylustod teithio i Fanceinion ar gyfer gwrandawiad byr.

Rydym yn cydnabod bod manteision i wrandawiadau wyneb yn wyneb a gwrandawiadau MPT rhithwir. Mae'r lleoliad cywir yn dibynnu ar amgylchiadau achos a'r dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno ac rydym wedi dangos y gallu i fod yn hyblyg. Mae ein defnydd o dechnoleg fodern yn golygu bod gennym fwy o hyblygrwydd i ganiatáu i dystion roi tystiolaeth yn rhithiol, lle bo hynny'n briodol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r ddau barti ym mhob achos, y meddyg a'r GMC, wrth benderfynu ar leoliad gwrandawiad.

Mae ein defnydd o rith-wrandawiadau yn golygu nad oes angen cymaint o ystafelloedd gwrandawiadau arnom mwyach. Ddiwedd 2023, fe wnaethom lofnodi cytundeb les newydd gyda'n landlord ym Manceinion. Fel rhan o'r cytundeb hwn, mae gwaith adnewyddu'n cael ei wneud gan ein landlord i ddarparu naw ystafell gwrandawiadau i ni erbyn dechrau 2025, yn lle'r 15 presennol.

## Diwygio rheoleiddio

Gan droi at waith y GMC yn rheoleiddio Cymdeithion Meddygol a Chymdeithion Anesthesia, a fydd yn dod i rym ddiwedd 2024, yn 2023 bu ad-drefnu mewnol a fydd yn ein galluogi i fynd i'r afael yn well â'r cyfleoedd a ddaw yn sgil rheoleiddio'r grŵp newydd hwn o broffesiynau.

Bydd dod â Chymdeithion Meddygol a Chymdeithion Anesthesia i'r gwaith o reoleiddio gan y GMC yn golygu bod angen i'r MPTS fod yn barod i gynnal

# Adolygu 2023

gwrandawiadau ar gyfer y rhai sy'n cael eu cyfeirio atom yn dilyn ymchwiliad gan y GMC. Mae nifer y Cymdeithion Meddygol a Chymdeithion Anesthesia sy'n gweithio yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd oddeutu 3,000 o'i gymharu â mwy na 370,000 o feddygon sydd wedi cofrestru gyda'r GMC. O ystyried hyn, a'r ganran fach o feddygon sy'n cael eu hatgyfeirio ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y bydd nifer y gwrandawiadau ar gyfer Cymdeithion Meddygol a Chymdeithion Anesthesia yn fach.

Bydd cyfnod pan fyddwn yn rhedeg tribiwnlysoedd ar gyfer meddygon, Cymdeithion Meddygol a Chymdeithion Anesthesia dan ddeddfwriaeth a gweithdrefnau gwahanol. Drwy gydol 2023 rydym wedi bod yn ystyried y ddeddfwriaeth wrth iddi ddatblygu, a sut bydd hyn yn effeithio ar ein gwaith dyfarnu. Bydd hynny'n parhau drwy gydol 2024 wrth i ni ddatblygu prosesau, gweithdrefnau a chanllawiau i sicrhau ein bod yn barod i gynnal gwrandawiadau ar gyfer Cymdeithion Meddygol a Chymdeithion Anesthesia.

## Cost gwrandawiadau

Rydym yn cyfrifo cost gwrandawiadau drwy rannu'r hyn rydym yn ei wario ar gynnal gwrandawiadau tribiwnlys â nifer y diwrnodau gwrandawiadau.

Mae costau gwrandawiadau uniongyrchol yn cynnwys ffioedd aelodau'r tribiwnlys a chynhaliaeth, ynghyd â chostau trawsgrifio a allai godi yn ystod neu ar ôl gwrandawiad.

Mae costau anuniongyrchol yn cynnwys ein canolfan gwrandawiadau a chydweithwyr yr MPTS sy'n cynorthwyo'r gwaith o gynnal gwrandawiadau neu reoli achosion cyn gwrandawiad.

| **Cost gwrandawiadau 2023** | |
|---|---|
| Costau uniongyrchol | £4,741,850 |
| Costau anuniongyrchol | £3,709,521 |
| **Cyfanswm y costau** | **£8,451,371** |
| Diwrnodau gwrandawiadau | 3,063 |
| Cost fesul diwrnod gwrandawiad | £2,759 |

# Ein harweinyddiaeth


| | |
|---|---|
| Ein Pwyllgor | 8 |
| Ein rheolwyr | 8 |
| Ein gweledigaeth | 9 |




# Ein harweinyddiaeth

Mae'r MPTS yn cynnal gwrandawiadau ar gyfer meddygon y mae eu haddasrwydd i ymarfer yn cael ei gwestiynu.

Rydym yn annibynnol ar ein penderfyniadau, ac yn gweithredu ar wahân i rôl ymchwilio'r GMC.

Fel un o bwyllgorau statudol y GMC, rydym yn atebol i Gyngor y GMC a Senedd y Deyrnas Unedig.

## Ein Pwyllgor

Mae ein Cadeirydd, Ei Hanrhydedd Deborah Taylor, yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth awdurdodaethol ar gyfer y sefydliad. Mae hi'n cadeirio Pwyllgor yr MPTS, sy'n gorfod adrodd ar ei weithgareddau ddwywaith y flwyddyn i'r GMC ac i'r Senedd bob blwyddyn.

Ar ddiwedd 2023 roedd Pwyllgor yr MPTS yn cynnwys:

- Ei Hanrhydedd Deborah Taylor
- Gill Edelman, aelod lleyg
- Joy Hamilton, aelod lleyg o dribiwnlys
- Yr Athro Jacky Hayden, aelod meddygol
- Dr Simon Mackenzie, aelod o'r tribiwnlys meddygol

Daeth Joy Hamilton i ddiwedd ei thymor fel aelod o'r Pwyllgor ac rydym yn ddiolchgar am ei chyfraniad i waith yr MPTS.

Penodwyd Barbara Larkin yn aelod o dribiwnlys lleyg y Pwyllgor ym mis Chwefror 2024.

## Ein rheolwyr

Mae'r MPTS yn cael ei reoli gan y Rheolwr Gweithredol, Gavin Brown, a'i uwch dîm rheoli.

Mae'r Rheolwr Gweithredol yn cymryd cyfarwyddyd o ddydd i ddydd gan y Cadeirydd wrth reoli'r MPTS yn weithredol ac mae hefyd yn atebol i Gyfarwyddwr Adnoddau'r GMC am ddefnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol.

Ddiwedd 2023 roedd gennym 115 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn.

# Ein harweinyddiaeth

## Ein gweledigaeth

Mae Pwyllgor yr MPTS yn gosod y weledigaeth strategol ar gyfer y Gwasanaeth.

Ein gweledigaeth yw darparu gwasanaeth tribiwnlys sy'n effeithiol, yn deg ac yn ddiduedd. Darparu gwasanaeth sy'n:

- gwneud penderfyniadau annibynnol, rhesymegol ac o ansawdd uchel i ddiogelu'r cyhoedd
- trin holl ddefnyddwyr gwasanaeth y tribiwnlys â pharch a thegwch
- defnyddio technoleg fodern i gynnal gwrandawiadau yn fwy effeithiol ac effeithlon
- rhannu ei wybodaeth ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfeiriad dyfarniadau yn y dyfodol.

# Gwneud penderfyniadau


| | |
|---|---|
| Aelodau'r tribiwnlys | 11 |
| Amrywiaeth aelodau'r tribiwnlysoedd | 11 |
| Hyfforddi aelodau'r tribiwnlysoedd | 12 |
| Datblygu aelodau tribiwnlysoedd | 12 |
| Sicrhau ansawdd penderfyniadau tribiwnlysoedd | 12 |
| Pwyntiau dysgu a gyhoeddwyd gan y Grŵp Sicrhau Ansawdd | 13 |
| Diweddariadau i ganllawiau'r tribiwnlysoedd | 13 |




# Gwneud penderfyniadau

## Aelodau'r tribiwnlys

Rydym yn penodi holl aelodau'r tribiwnlys drwy gystadleuaeth agored ac yn eu dethol ar gyfer eu galluoedd ar sail cymwyseddau y cytunwyd arnynt.

Mae rhai aelodau o dribiwnlysoedd, gan gynnwys aelodau â chymwysterau cyfreithiol, wedi cael eu penodi'n arbennig a'u hyfforddi i weithredu fel cadeiryddion tribiwnlysoedd.

Fe wnaethom lansio ymgyrch penodiadau meddygol a lleyg ddechrau 2023. Penodwyd 92 aelod newydd o'r tribiwnlys.

Ar 31 Rhagfyr 2023, roedd gennym **342 o aelodau tribiwnlysoedd**, gyda

**41.2%** ohonynt yn **aelodau meddygol** | **26.6%** **yn aelodau lleyg** | **32.2%** **yn gadeiryddion â chymwysterau cyfreithiol.**

## Amrywiaeth aelodau'r tribiwnlysoedd

Mae aelodau ein tribiwnlysoedd yn dod ag amrywiaeth eang o safbwyntiau i'r rôl. Rydym yn annog amrywiaeth eang o geisiadau drwy dargedu hysbysebion a defnyddio rhwydweithiau a ddefnyddir gan wahanol grwpiau.



Ar 31 Rhagfyr 2023, roedd **51.5%** o'n 342 aelod o'n tribiwnlysoedd yn **fenywod** ac roedd **23%** o **leiafrifoedd ethnig**.



Rydym yn ffurfio panel tri unigolyn ar gyfer pob tribiwnlys yn ôl argaeledd aelodau'r tribiwnlys. Rydym yn monitro pa mor aml mae hyn yn cynhyrchu tribiwnlys amrywiol, ond nid ydym yn llunio panel ar sail nodweddion gwarchodedig.

Yn 2023, roedd gan ein tribiwnlysoedd amrywiaeth ethnigrwydd ar 46.7% o wrandawiadau ac amrywiaeth rhyw ar 70% o wrandawiadau. Roedd gan 31.9% o dribiwnlysoedd amrywiaeth o ran rhyw ac ethnigrwydd. Roedd tribiwnlys un-rhyw heb aelodau o leiafrifoedd ethnig yn eistedd mewn 15% o wrandawiadau.

# Gwneud penderfyniadau

## Hyfforddi aelodau'r tribiwnlysoedd

Mae holl aelodau newydd y tribiwnlysoedd yn cael sawl diwrnod o hyfforddiant cynefino manwl. Mae hyn yn pwysleisio'r ddeddfwriaeth a'r rheolau sy'n rheoli'r broses ar gyfer ein gwrandawiadau, y sgiliau allweddol sydd eu hangen ar gyfer y rôl a'u cymhwyso'n ymarferol.

Rhaid i aelodau'r tribiwnlys ddiweddaru eu sgiliau a'u gwybodaeth drwy ein cylchlythyrau rheolaidd a diweddaru'r canllawiau. Rydym hefyd yn darparu modiwlau e-ddysgu, fideos a gweminarau.

Yn 2023, bu holl aelodau'r tribiwnlys mewn hyfforddiant blynyddol, a oedd yn cynnwys:



Rheoli gwrandawiadau'n effeithlon.



Diweddariadau ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, pwyntiau dysgu sicrhau ansawdd a diwygiadau rheoleiddio a ragwelir.



E-ddysgu ar ddiweddariadau cyfraith achosion

## Datblygu aelodau tribiwnlysoedd

Er mwyn cynnal ein safonau uchel, mae aelodau tribiwnlysoedd yn cymryd rhan mewn prosesau amrywiol i'w helpu i ddatblygu.

Mae hyn yn cynnwys adborth 360 gradd lle derbynnir sylwadau gan aelodau eraill tribiwnlysoedd maent wedi gweithio gyda nhw. Mae arsylwadau o'u cymwyseddau a ddangosir yn ystod gwrandawiadau hefyd yn cael eu cynnal gan aelodau o staff yr MPTS sydd wedi eu hyfforddi'n briodol.

## Sicrhau ansawdd penderfyniadau tribiwnlysoedd

Mae'r Grŵp Sicrhau Ansawdd (QAG) yn cael ei gadeirio gan ein Cadeirydd ac mae'n cyfarfod bob mis i adolygu cyfran o benderfyniadau ysgrifenedig y tribiwnlys.

Y pwrpas yw nodi pwyntiau dysgu a all helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n glir, yn rhesymegol ac yn cydymffurfio â'r gyfraith achosion a'r canllawiau perthnasol. Gellir cynnwys unrhyw fater a nodwyd yn sesiynau hyfforddi'r tribiwnlys yn y dyfodol.

Yn 2023, adolygodd y Grŵp Sicrhau Ansawdd 246 o benderfyniadau'r tribiwnlys, gan gynnwys 25% o holl benderfyniadau'r MPT a 20% o'r penderfyniadau tribiwnlysoedd gorchmynion interim newydd.

Mae'r Grŵp Sicrhau Ansawdd hefyd yn adolygu penderfyniadau tribiwnlysoedd sydd wedi bod yn destun apeliadau ac yn ystyried unrhyw adborth gan y GMC a'r PSA (yr Awdurdod Safonau Proffesiynol) ar achosion nad oeddent yn bodloni eu trothwyon perthnasol ar gyfer apelio.

# Gwneud penderfyniadau

## Pwyntiau dysgu a gyhoeddwyd gan y Grŵp Sicrhau Ansawdd

Yn 2023, cyhoeddodd y Grŵp Sicrhau Ansawdd bwyntiau dysgu i aelodau'r tribiwnlysoedd ar amrywiaeth o bynciau.
Roedd y rhain yn cynnwys:

- Pwyntiau dysgu penodol gan y QAG ar IOTs ac MPTs gan gynnwys yr arferion gorau ar gyfer drafftio penderfyniadau,
- Cyngor ar wneud y defnydd gorau o amser mewn tribiwnlys gorchmynion interim wrth ddelio â gohiriadau,
- Y dull o adolygu gwrandawiadau a gwrandawiadau adfer,
- Eglurhad ynghylch pryd dylid defnyddio rhybuddion,
- Canllawiau ar wrando ar dystiolaeth gan dystion a leolir dramor,
- Pwyntiau dysgu penodol mewn perthynas â phum apêl.

Gallwch weld yr holl bwyntiau dysgu a roddwyd i aelodau'r tribiwnlysoedd yn www.mpts-uk.org/learning_points.

## Diweddariadau i ganllawiau'r tribiwnlysoedd

Yn 2023, fe wnaethom gyhoeddi canllawiau mwy diweddar ar gyfer yr MPTS ar orfodi gorchmynion interim. Roedd y newidiadau'n ymwneud ag ystyried rhyddid mynegiant, achosion o gamymddwyn rhywiol ac ymgynghoriadau o bell.

Fe wnaethom hefyd ddweud wrth aelodau'r tribiwnlys y byddai'r fersiynau newydd o *Arfer Meddygol Da a'r canllawiau ar sancsiynau* yn dod i rym ar 30 Ionawr 2024.

# Tryloywder


Gwrandawiadau cyhoeddus 15
Cyhoeddi penderfyniadau 15
Cofrestrau buddiannau 16
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant 16
Atgyfeiriadau anghymesur 16
Cysylltu â defnyddwyr yr MPTS 17




# Tryloywder

## Gwrandawiadau cyhoeddus

Mae MPTs yn eistedd yn gyhoeddus, oni bai eu bod yn ystyried gwybodaeth gyfrinachol am iechyd meddyg, neu bod amgylchiadau eithriadol.

Rydym yn hysbysebu gwrandawiadau cyhoeddus sydd ar y gweill ar ein gwefan, gyda chrynodeb byr o'r honiad a wneir yn erbyn y meddyg.

Gall unrhyw un ddod i wrandawiad cyhoeddus yn yr MPTS ac rydym yn annog pobl sydd â diddordeb yn ein gwaith i fod yn bresennol. Mae grwpiau o fyfyrwyr meddygol a'r gyfraith ac aelodau o sefydliadau perthnasol eraill yn ymweld â ni'n rheolaidd.

Er mwyn helpu'r cyhoedd i ddeall ein penderfyniadau, mae gennym gyfleusterau ar gyfer newyddiadurwyr sy'n dod i'n gwrandawiadau. Mae'r holl benderfyniadau cyhoeddus a gyhoeddir gan dribiwnlysoedd ar gael i newyddiadurwyr, ar gais.

Mae'r ddeddfwriaeth yn datgan y dylid cynnal IOT yn breifat oni bai fod y meddyg yn gofyn yn benodol am wrandawiad cyhoeddus.

## Cyhoeddi penderfyniadau

Ar ôl i wrandawiad MPT ddod i ben, rydym yn cyhoeddi Cofnod o Benderfyniadau sy'n egluro'r rhesymau dros unrhyw benderfyniad a wneir gan y tribiwnlys. Mae hwn ar gael ar ein gwefan am 12 mis.

Os canfuwyd nam, neu os rhoddwyd rhybudd, bydd yr un cofnod hefyd yn ymddangos ar gofnod y meddyg ar gofrestr feddygol y GMC.

Mae manylion gorchmynion interim i atal neu gyfyngu ar gofrestriad meddyg (yn ddibynnol ar ganlyniad ymchwiliad gan y GMC) yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan am chwe wythnos. Mae gorchmynion interim yn ymddangos ar y gofrestr feddygol cyhyd ag y maent ar waith.

# Tryloywder

## Cofrestrau buddiannau

Rydym yn cyhoeddi dwy gofrestr o fuddiannau, i ategu tryloywder, uniondeb a hyder yn ein prosesau.

Fel un o bwyllgorau statudol GMC, mae aelodau ein Pwyllgor yn dilyn y canllawiau a roddir i aelodau'r GMC ar ddatganiadau o fuddiant. Mae manylion llawn buddiannau aelodau Pwyllgor yr MPTS a ddatganwyd ar gael yn www.mpts-uk.org/about/how-we-work/the-committee-and-their-interests.

Mae cofrestr aelodau ein tribiwnlys yn ein helpu i osgoi unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau a allai ei gwneud yn ofynnol i aelod o dribiwnlys ymneilltuo o wrandawiad. Mae manylion llawn buddiannau cofrestredig aelodau'r tribiwnlys ar gael yn www.mpts-uk.org/TribunalMembersRegister.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o'n gwaith, fel dyfarnwr a chyflogwr. Rydym yn defnyddio strategaeth a pholisïau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y GMC.

Fel dyfarnwr, rydym yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer y rhai sy'n mynd i wrandawiadau i wneud yn siŵr eu bod yn gallu chwarae rhan lawn yn yr achos.

Credwn ei bod yn bwysig bod aelodau tribiwnlysoedd yn dod ag amrywiaeth o safbwyntiau amrywiol i'r rôl. Wrth benodi aelodau newydd i'r tribiwnlysoedd, rydym yn cymryd camau gweithredol i annog ceisiadau o amrywiaeth eang o gefndiroedd, drwy dargedu hysbysebion a defnyddio rhwydweithiau gyda grwpiau amrywiol.

Rydym yn monitro, yn sicrhau ansawdd ac yn dadansoddi sut mae ein prosesau'n cael eu rhoi ar waith fel dyfarnwr a chyflogwr i sicrhau ein bod ni'n cyflawni'r nod hwn a'n hymrwymiadau.

## Atgyfeiriadau anghymesur

Yn 2021, sefydlodd y GMC dargedau i ddileu atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer anghymesur gan gyflogwyr mewn perthynas ag ethnigrwydd a tharddiad cymhwyster meddygol erbyn 2026.

Mae meddygon o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o gael eu cyfeirio at y GMC gan eu cyflogwyr ar sail pryderon addasrwydd i ymarfer na meddygon gwyn. Mae meddygon a gafodd eu cymhwyster meddygol sylfaenol y tu allan i'r Deyrnas Unedig hefyd yn fwy tebygol o gael eu hatgyfeirio na meddygon sydd wedi eu hyfforddi yn y Deyrnas Unedig.

Gellir gweld yr anghymesuredd hwn wedyn ar bob cam o'r broses addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys yng ngwrandawiadau'r MPTS.

Mae gwybodaeth am ethnigrwydd a Chwestiynau Cyffredin meddygon sy'n ymddangos mewn gwrandawiadau yn 2023 wedi'i chynnwys yn yr adran *canlyniadau gwrandawiadau* (Tud. 18) a'r adran *Cynrychiolaeth a Phresenoldeb* (Tud. 26).

# Tryloywder

Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn y GMC i adeiladu ar yr ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid a gyhoeddwyd yn 2019, a ddaeth i'r casgliad mai'r meddygon a oedd yn tueddu i gael canlyniadau mwy difrifol oedd y rhai nad oeddent yn bresennol yn eu gwrandawiad neu nad oedd ganddynt gynrychiolaeth gyfreithiol. Nid oedd cysylltiad rhwng canlyniadau difrifol ac unrhyw nodwedd warchodedig.*

Rydym yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn y GMC sy'n gweithredu argymhellion ei *Adolygiad Mewnol o Degwch Rheoleiddiol*.†

## Cysylltu â defnyddwyr yr MPTS

Mae Grŵp Defnyddwyr yr MPTS yn bodoli i'n helpu i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r holl bartïon sy'n ymwneud â'n gwrandawiadau. Cynhelir cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn, lle gall defnyddwyr godi materion gweithredol sy'n peri pryder gyda'n Cadeirydd a'n Rheolwr Gweithredol.

Mae sefydliadau amddiffyn meddygol, y cwmnïau cyfreithiol maent yn eu cyfarwyddo, a staff o gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer y GMC yn bresennol yn y cyfarfodydd, sy'n ymchwilio ac yn paratoi achosion. Mae aelodau Pwyllgor yr MPTS hefyd yn bresennol ym mhob cyfarfod.

Rydym yn gwerthfawrogi'r adborth a gawn yn y cyfarfodydd hyn a'r agwedd adeiladol a gymerwyd gan y rhai sy'n mynd i'r cyfarfodydd. Mae clywed gan y rhai sydd â phrofiad o ddefnyddio ein gwasanaeth yn hanfodol os ydym am weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol.

* Gwelwch https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/31771585/

† Gwelwch https://www.gmc-uk.org/-/media/gmc-site/news-and-media/fairness-review-2022/reviewing-how-we-approach-fairness-and-bias---actions-for-2023.pdf

# Canlyniadau gwrandawiadau yn 2023


Gwrandawiadau tribiwnlys gorchmynion interim – achosion newydd 19
Gwrandawiadau tribiwnlysoedd gorchmynion interim – adolygiadau 19
Atgyfeiriadau i brif wrandawiad 20
Gwrandawiadau tribiwnlys ymarferwyr meddygol – achosion newydd 20
Lleoliad gwrandawiadau 21
Mathau o amhariad honedig yn 2023 22
Ynglŷn â'r meddygon sy'n mynd i wrandawiadau MPT newydd yn 2023 23
Gwrandawiadau diffyg cydymffurfio 24
Gwrandawiadau adfer 25
Gwrandawiadau adolygu MPT 25




# Canlyniadau gwrandawiadau yn 2023

## Gwrandawiadau tribiwnlys gorchmynion interim – achosion newydd

Tribiwnlysoedd gorchmynion interim sy'n penderfynu a ddylid cyfyngu ar ymarfer meddyg tra bo ymchwiliad yn cael ei gynnal gan y GMC.

Mae pob achos tribiwnlys gorchmynion interim newydd yn cael ei glywed yn rhithiol.

| Canlyniadau mewn gwrandawiadau tribiwnlysoedd gorchmynion interim | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|
| Atal dros dro | 35 | 34 | 29 |
| Amodau | 217 | 184 | 173 |
| Dim gweithredu | 56 | 54 | 37 |
| **Cyfanswm** | **308** | **272** | **239** |

## Gwrandawiadau tribiwnlysoedd gorchmynion interim – adolygiadau

Rhaid adolygu gorchmynion interim o leiaf bob chwe mis a dim ond yr Uchel Lys all eu hymestyn y tu hwnt i hyd y gorchymyn cychwynnol. Os caiff gorchymyn ei amrywio yn ystod y cam adolygu, rhaid cynnal adolygiad pellach o fewn tri mis.

Pan fydd y GMC a'r meddyg yn cytuno ar y canlyniad arfaethedig, gellir cynnal adolygiad ar y papurau gan LQG. Fel arall, cynhelir gwrandawiad adolygu. Cynhaliwyd pob gwrandawiad adolygu ar-lein yn 2023.

| Adolygiadau IOT a gynhaliwyd yn 2023 | |
|---|---|
| Gwrandawiad adolygu rhithwir | 587 |
| Gwrandawiad adolygu wyneb yn wyneb | 0 |
| **Adolygwyd ar y papurau** | **681** |
| **Cyfanswm** | **1,268** |

# Canlyniadau gwrandawiadau yn 2023

## Atgyfeiriadau i brif wrandawiad

Os yw'r GMC o'r farn y gallai fod amhariad ar addasrwydd meddyg i ymarfer, gall gyfeirio achos y meddyg atom ar gyfer gwrandawiad MPT.

Yn 2023, cawsom 231 o atgyfeiriadau i brif wrandawiad. Roedd hyn yn cynnwys achosion a gyfeiriwyd:

- ar gyfer penderfyniad ar addasrwydd y meddyg i ymarfer (gwrandawiadau MPT newydd, neu fel rhan o wrandawiad adolygu)
- ar gyfer penderfyniad ynghylch diffyg cydymffurfio â chyfarwyddyd y GMC (gwrandawiad diffyg cydymffurfio)
- ar gyfer penderfyniad ar gais meddyg am adferiad (gwrandawiad adfer).

| | |
|---|---|
| **Atgyfeirio ar gyfer gwrandawiad tribiwnlys i ymarferwyr meddygol newydd** | |
| **Atgyfeiriad am wrandawiad diffyg cydymffurfio** | **10** |
| **Cyfeirio am wrandawiad adfer** | **17** |
| **Cyfanswm yr atgyfeiriadau ar gyfer gwrandawiadau tribiwnlys ymarferwyr meddygol** | **231** |

Weithiau bydd atgyfeiriadau i'r MPTS yn cael eu canslo. Gallai hyn fod oherwydd bod gwybodaeth wedi dod ar gael sy'n golygu nad yw'r trothwy ar gyfer atgyfeirio'n cael ei fodloni mwyach, neu oherwydd amgylchiadau eraill.

Gall rhai atgyfeiriadau gynnwys mwy nag un meddyg.

## Gwrandawiadau tribiwnlys ymarferwyr meddygol – achosion newydd

Os yw'r GMC o'r farn y gallai fod amhariad ar addasrwydd meddyg i ymarfer, gall gyfeirio achos y meddyg atom ar gyfer gwrandawiad MPT.

Mae gwrandawiad MPT yn dilyn tri cham:

1 → 2 → 3

**1 Ffeithiau**
a yw pob un o'r ffeithiau honedig wedi eu profi?

**2 Amhariad**
a yw'r ffeithiau a cafwyd yn gyfystyr â nam ar addasrwydd y meddyg i ymarfer?

**3 Sancsiynau**
os canfyddir amhariad, pa sancsiwn sy'n angenrheidiol i ddiogelu'r cyhoedd?

# Canlyniadau gwrandawiadau yn 2023

Gwnaeth tribiwnlysoedd ymarferwyr meddygol benderfyniadau mewn 250 o achosion meddygon yn 2023.

I roi'r ffigur hwnnw yn ei gyd-destun, roedd 357,198 o feddygon ar gofrestr feddygol y Deyrnas Unedig ddiwedd 2022. Yn yr un flwyddyn, ystyriodd y GMC 8,893 o bryderon am feddygon, ac roedd 851 (0.24%) ohonynt yn cyrraedd y trothwy statudol ar gyfer ymchwilio.

| Canlyniad MPT newydd | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|
| Amharwyd: Dileu | 58 | 68 | 60 |
| Amharwyd: Ataliad dros dro | 91 | 101 | 109 |
| Amharwyd: Cyflyrau | 14 | 18 | 13 |
| Amharwyd: Dim gweithredu | 2 | 4 | 2 |
| Dim amhariad: Rhybudd | 28 | 21 | 15 |
| Dim amhariad | 71 | 58 | 49 |
| Dileu gwirfoddol | 4 | 2 | 2 |
| Ymgymeriadau | 1 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **269** | **273** | **250** |

## Lleoliad gwrandawiadau

Ym mhob achos, rydym yn gweithio gyda'r meddyg a'r GMC i benderfynu ar y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer gwrandawiad - wyneb yn wyneb, yn rhithiol neu'n hybrid o'r ddau.

**Gwrandawiadau newydd MPT yn 2023**



# Canlyniadau gwrandawiadau yn 2023

## Mathau o amhariad honedig yn 2023

Mewn gwrandawiad MPT newydd, mae'n bosibl y bydd y GMC yn honni bod un neu ragor o'r seiliau a ganlyn yn amharu ar addasrwydd meddyg i ymarfer:

- camymddwyn
- perfformiad proffesiynol diffygiol
- euogfarn, neu rybudd, am drosedd
- iechyd corfforol neu iechyd meddwl gwael
- ddim yn meddu ar yr wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg
- penderfyniad a wnaed gan gorff rheoleiddio arall.

Roedd y mwyafrif helaeth o'n prif wrandawiadau yn 2023 yn cynnwys honiadau o gamymddwyn, neu gamymddwyn a ffactor arall. Ychydig iawn o achosion sy'n cael eu cyfeirio atom ar sail iechyd neu berfformiad meddyg yn unig.

| Honiad amhariad MPT newydd 2023 | Rhif | Canran |
|---|---|---|
| Camymddwyn | 194 | 77.6 |
| Euogfarn | 23 | 9.2 |
| Perfformiad | 5 | 2.0 |
| Iechyd | 3 | 1.2 |
| Camymddwyn ac Euogfarn | 8 | 3.2 |
| Camymddwyn a pherfformiad | 1 | 0.4 |
| Camymddwyn ac iechyd | 7 | 2.8 |
| Euogfarn ac iechyd | 1 | 0.4 |
| Cyfuniadau eraill o'r uchod | 8 | 3.2 |
| **Cyfanswm** | **250** | |

# Canlyniadau gwrandawiadau yn 2023

## Ynglŷn â'r meddygon sy'n mynd i wrandawiadau MPT newydd yn 2023

Mae'r MPTS yn gwrando ar achosion addasrwydd i ymarfer ar gyfer meddygon sydd wedi eu cofrestru yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r lleoliad a nodir isod yn seiliedig ar gorff dynodedig y meddyg, ardal eu practis GIG neu'r cyfeiriad cofrestredig adeg atgyfeirio i wrandawiad MPT newydd.

| Gwlad | Rhif | Canran | Cofrestr y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| Lloegr | 212 | 84.8 | 75.4 |
| Gogledd Iwerddon | 4 | 1.6 | 2.4 |
| Yr Alban | 11 | 4.4 | 7.3 |
| Cymru | 11 | 4.4 | 3.8 |
| Y tu allan i'r Deyrnas Unedig | 12 | 4.8 | 11.1 |
| **Cyfanswm** | **250** | | |

Dynion yn bennaf yw meddygon sy'n ymddangos mewn gwrandawiadau MPT newydd, er mai ychydig dros hanner y gofrestr yn y Deyrnas Unedig sy'n ddynion.

| Rhyw | Rhif | Canran | Cofrestr y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| Gwryw | 212 | 84.8 | 53.9 |
| Benyw | 38 | 15.2 | 46.1 |
| **Cyfanswm** | **250** | | |

Roedd meddygon a oedd yn ymddangos mewn gwrandawiadau MPT newydd yn 2023 yn fwy tebygol o fod o leiafrif ethnig, er bod meddygon gwyn yn cyfrif am bron i hanner cofrestr feddygol y Deyrnas Unedig.

Yn ogystal, roedd meddygon a oedd yn cymhwyso y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn cyfrif am 60% o'r gwrandawiadau MPT newydd, er mai dim ond 41.5% o'r gofrestr oedd ganddynt.

Rydym yn gwybod bod yr anghymesuredd hwn yn dechrau pan fydd cwynion yn cael eu gwneud i'r GMC i ddechrau gan gyflogwyr a'r cyhoedd.

Mae gan y GMC ddyletswydd statudol i ystyried yr holl bryderon sy'n cael eu cyfeirio ato, ac mae'n rhaid i'r MPTS wrando ar bob achos sy'n cael ei gyfeirio gan y GMC.

Gan hynny, rydym yn croesawu targed y GMC i ddileu'r anghymesuredd yn yr atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer y mae'n eu cael gan gyflogwyr, mewn perthynas ag ethnigrwydd a tharddiad cymwysterau meddygol, erbyn 2026.

# Canlyniadau gwrandawiadau yn 2023

| Cymhwyster meddygol sylfaenol | Rhif | Canran | Cofrestr y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| Y Deyrnas Unedig | 100 | 40.0 | 58.5 |
| Ardal Economaidd Ewropeaidd | 32 | 12.8 | 10.1 |
| Myfyriwr Meddygol Graddedig Rhyngwladol | 118 | 47.2 | 31.4 |
| **Cyfanswm** | **250** | | |

| Ethnigrwydd | Gwrandawiadau newydd MPT 2023 | | Cofrestr y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | 98 | 39.2% | 29.3% |
| Du / Du Prydeinig | 22 | 8.8% | 5.9% |
| Cymysg | 6 | 2.4% | 2.6% |
| Grwpiau ethnig eraill | 18 | 7.2% | 5.4% |
| Gwyn | 84 | 33.6% | 49.9% |
| Amhenodol | 22 | 8.8% | 6.9% |
| **Cyfanswm** | **250** | | |

## Gwrandawiadau diffyg cydymffurfio

Os yw'r GMC o'r farn bod meddyg sy'n destun ymchwiliad yn gwrthod cynnal asesiad o'i iechyd, ei berfformiad neu ei hyfedredd yn y Saesneg yn gyson neu'n benodol, gall gyfeirio'r meddyg at yr MPTS ar gyfer gwrandawiad diffyg cydymffurfio.

Pan fydd tribiwnlys yn gwneud canfyddiad o ddiffyg cydymffurfio, gall osod sancsiwn o amodau neu ataliad.

| Canlyniadau mewn gwrandawiadau diffyg cydymffurfio | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|
| Atal dros dro | 8 | 3 | 8 |
| Amodau | 1 | 1 | 1 |
| Heb ganfod diffyg cydymffurfio | 0 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **9** | **4** | **10** |

# Canlyniadau gwrandawiadau yn 2023

## Gwrandawiadau adfer

Gall meddyg y cafodd ei enw ei ddileu oddi ar y gofrestr feddygol am resymau disgyblu wneud cais am adferiad ar ôl o leiaf bum mlynedd.

Rhaid i MPT benderfynu a yw'r meddyg yn addas i ymarfer ac a yw'n cyd-fynd â'n hamcan cyffredinol o amddiffyn y cyhoedd i alluogi'r meddyg i adennill ei gofrestriad.

| Canlyniadau mewn gwrandawiadau adfer | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|
| Caniatáu'r cais | 6 | 6 | 3 |
| Cais wedi ei wrthod | 15 | 17 | 12 |
| **Cyfanswm** | **21** | **23** | **15** |

## Gwrandawiadau adolygu MPT

Wrth osod sancsiwn o amodau neu ataliad dros dro ar feddyg, gall MPT gyfarwyddo bod gwrandawiad adolygu'n cael ei gynnal cyn i'r cyfnod ddod i ben. Gall y GMC hefyd gyfeirio mater at yr MPTS i drefnu gwrandawiad adolygu.

Bydd tribiwnlys newydd yn penderfynu a oes amhariad o hyd ar addasrwydd y meddyg i ymarfer. Os canfyddir amhariad, mae'r amrediad llawn o sancsiynau ar gael. Gellir cynnal gwrandawiadau adolygu ar y papurau pan fydd y ddau barti'n cytuno ar y canlyniad arfaethedig, gan osgoi'r angen am wrandawiad llawn.

| Adolygiadau MPT a gynhaliwyd yn 2023 | |
|---|---|
| Gwrandawiad adolygu rhithwir | 96 |
| Gwrandawiad adolygu wyneb yn wyneb (gan gynnwys hybrid) | 7 |
| Adolygwyd ar y papurau | 23 |
| **Cyfanswm** | **126** |

| Adolygiadau o ddiffyg cydymffurfio MPT a gynhaliwyd yn 2023 | |
|---|---|
| Gwrandawiad adolygu rhithwir | 13 |
| Gwrandawiad adolygu wyneb yn wyneb | 0 |
| Adolygwyd ar y papurau | 0 |
| **Cyfanswm** | **13** |

# Cynrychiolaeth a phresenoldeb


Meddygon heb gynrychiolaeth gyfreithiol 28
Absenoldeb meddygon 29
Cynrychiolaeth a phresenoldeb yn ôl ethnigrwydd 29
Cymorth i dystion 30




# Cynrychiolaeth a phresenoldeb

Rydym yn dal i boeni am nifer y meddygon nad ydynt yn dod i'w gwrandawiad, yn ogystal â'r nifer sy'n bresennol heb gynrychiolaeth gyfreithiol.

Y llynedd, nid oedd 26.3% o feddygon yn bresennol yn eu gwrandawiad ac ni wnaethant anfon cynrychiolydd cyfreithiol. Aeth 16.7% o feddygon i'w gwrandawiad heb gynrychiolydd cyfreithiol, a 0.4% arall gyda chynrychiolydd nad oedd yn gweithio ym myd y gyfraith.

Mae'r ffigurau hyn wedi gwella ers cyflwyno rhith wrandawiadau yn 2020, ond rydym yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd cynrychiolaeth gyfreithiol broffesiynol yn ein hachosion. Byddwn hefyd yn parhau i wneud yr hyn a allwn i gefnogi'r meddygon hynny sy'n mynd i wrandawiad ar eu pen eu hunain.

| Pob math o wrandawiad | 2023 | |
|---|---|---|
| | Rhif | Canran |
| Yn bresennol gyda chynrychiolaeth gyfreithiol | 523 | 53.5 |
| Yn bresennol gyda chynrychiolaeth o'r tu allan i fyd y gyfraith | 4 | 0.4 |
| Yn bresennol heb gynrychiolaeth | 163 | 16.7 |
| Cynrychiolaeth gyfreithiol yn unig | 31 | 3.2 |
| Cynrychiolaeth o'r tu allan i fyd y gyfraith yn unig | 0 | 0.0 |
| Ddim yn bresennol | 257 | 26.3 |
| **Cyfanswm** | **978** | |

| Gwrandawiadau tribiwnlys gorchmynion interim newydd | 2023 | |
|---|---|---|
| | Rhif | Canran |
| Yn bresennol gyda chynrychiolaeth gyfreithiol | 174 | 72.8 |
| Yn bresennol gyda chynrychiolaeth o'r tu allan i fyd y gyfraith | 0 | 0.0 |
| Yn bresennol heb gynrychiolaeth | 33 | 13.8 |
| Cynrychiolaeth gyfreithiol yn unig | 4 | 1.7 |
| Ddim yn bresennol | 28 | 11.7 |
| **Cyfanswm** | **239** | |

# Cynrychiolaeth a phresenoldeb

| Gwrandawiadau MPT newydd | 2023 | |
|---|---|---|
| | Rhif | Canran |
| Yn bresennol gyda chynrychiolaeth gyfreithiol | 157 | 62.8 |
| Yn bresennol gyda chynrychiolaeth o'r tu allan i fyd y gyfraith | 1 | 0.4 |
| Yn bresennol heb gynrychiolaeth | 31 | 12.4 |
| Cynrychiolaeth gyfreithiol yn unig | 5 | 2.0 |
| Ddim yn bresennol | 56 | 22.4 |
| **Cyfanswm** | **250** | |

## Meddygon heb gynrychiolaeth gyfreithiol

Rydym eisiau i feddygon sy'n cynrychioli eu hunain fod mor barod â phosibl ar gyfer eu gwrandawiad. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn rhoi'r dystiolaeth orau bosibl ac yn lleihau'r risg y bydd gwrandawiad yn cael ei ohirio'n rhannol, gan ei gwneud yn ofynnol cynnal diwrnodau eraill cyn gallu cwblhau'r gwaith.




Mae ein *hadnoddau ar-lein ar gyfer Meddygon* wedi eu hysgrifennu'n benodol ar gyfer meddygon heb gynrychiolaeth gyfreithiol, gan eu tywys mor glir â phosibl drwy bob cam o'r broses wrandawiadau.

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth gwybodaeth dros y ffôn a gynhelir gan fyfyrwyr o Ysgol y Gyfraith Prifysgol BPP, Manceinion, sy'n cynnig gwybodaeth am y drefn wrandawiadau (ond nid cyngor cyfreithiol).

Mae ein Gwasanaeth Cyswllt Meddygon ar gael i bob meddyg, cyn ac ar ddiwrnod gwrandawiad, ac mae wedi ei anelu'n benodol at y rhai sy'n bwriadu bod yn bresennol ar eu pennau eu hunain neu heb gynrychiolaeth gyfreithiol. Gall aelod o'n staff nad oes ganddo gysylltiad ag achos y meddyg fod ar gael i siarad ar unrhyw adeg.

Nod y gwasanaeth hwn yw:

- helpu i leihau'r unigedd a'r straen y gallai meddygon ddod ar eu traws a'u cyfeirio at ddeunyddiau a gwasanaethau cymorth defnyddiol
- darparu gwybodaeth am y broses gwrandawiadau.

Yn 2023, ceisiodd 58 o feddygon fynediad at y gwasanaeth ar 183 achlysur.

# Cynrychiolaeth a phresenoldeb

## Absenoldeb meddygon

Mewn rhai achosion, mae meddygon wedi rhoi'r gorau i ymgysylltu â'r GMC yn ystod y broses ymchwilio, tra bod eraill yn rhoi'r gorau i ymgysylltu ar ôl cael eu cyfeirio at yr MPTS.

Mae ein tribiwnlysoedd bob amser yn ystyried y rhesymau dros absenoldeb y meddyg yn ofalus, er mwyn penderfynu a yw'n deg bwrw ymlaen. Fel arfer, mewn achos lle mae'r meddyg wedi bod yn absennol yn wirfoddol heb reswm da, bydd y tribiwnlys yn penderfynu ei bod er budd y cyhoedd i barhau â'r gwrandawiad.

Mae methiant i gymryd rhan weithredol yn anochel yn amddifadu'r meddyg o'r cyfle i gyflwyno ei dystiolaeth ei hun. Bydd hefyd yn ei gwneud yn anodd i'r tribiwnlys ddod i'r casgliad bod y meddyg wedi dangos lefel y ddealltwriaeth a'r adferiad sy'n angenrheidiol i osgoi canfyddiad o amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer.

## Cynrychiolaeth a phresenoldeb yn ôl ethnigrwydd

Fel yr amlinellir uchod yn yr adran ar *Dryloywder* (gweler t14), mae nifer anghymesur o feddygon o leiafrifoedd ethnig a meddygon sydd wedi eu hyfforddi y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn ymddangos yn ein gwrandawiadau, o'u cymharu â chofrestr y Deyrnas Unedig.

Mae ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid wedi dangos nad oes cysylltiad rhwng canlyniadau mwy difrifol mewn gwrandawiadau ac unrhyw nodwedd warchodedig. Fodd bynnag, mae cysylltiad cryf rhwng canlyniadau difrifol a meddygon nad oes ganddynt gynrychiolaeth gyfreithiol neu nad ydynt yn bresennol.

Mae'r tablau isod yn dangos nad yw'r lefelau presenoldeb a chynrychiolaeth yn unffurf ar draws grwpiau ethnig.

| IOT newydd yn 2023 | Pob meddyg | Asiaidd/ Asiaidd Prydeinig | Du / Du Prydeinig | Cymysg | Grwpiau ethnig eraill | Gwyn | Amhenodol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn bresennol gyda chynrychiolaeth gyfreithiol | **72.8%** | 73.2% | 76.9% | 80.0% | 70.0% | 73.1% | 63.2% |
| Yn bresennol gyda chynrychiolaeth o'r tu allan i fyd y gyfraith | **0.0%** | - | - | - | - | - | - |
| Yn bresennol heb gynrychiolaeth | **13.8%** | 9.9% | 15.4% | 10.0% | 20.0% | 14.0% | 21.1% |
| Cynrychiolaeth gyfreithiol yn unig | **1.7%** | 4.2% | - | - | 5.0% | - | - |
| Ddim yn bresennol | **11.7%** | 12.7% | 7.7% | 10.0% | 5.0% | 12.9% | 15.8% |

# Cynrychiolaeth a phresenoldeb

| MPT newydd yn 2023 | Pob meddyg | Asiaidd/ Asiaidd Prydeinig | Du / Du Prydeinig | Cymysg | Grwpiau ethnig eraill | Gwyn | Amhenodol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn bresennol gyda chynrychiolaeth gyfreithiol | **62.8%** | 70.4% | 54.5% | 50.0% | 61.1% | 57.1% | 63.6% |
| Yn bresennol gyda chynrychiolaeth o'r tu allan i fyd y gyfraith | **0.4%** | - | - | - | - | 1.2% | - |
| Yn bresennol heb gynrychiolaeth | **12.4%** | 11.2% | 18.2% | 16.7% | 16.7% | 11.9% | 9.1% |
| Cynrychiolaeth gyfreithiol yn unig | **2.0%** | 1.0% | 4.5% | 16.7% | - | 1.2% | 4.5% |
| Ddim yn bresennol | **22.4%** | 17.3% | 22.7% | 16.7% | 22.2% | 28.6% | 22.7% |

## Cymorth i dystion

Rydym yn cydnabod bod gwrandawiadau'n gallu achosi straen i unrhyw un sy'n bresennol, boed hynny fel meddyg, fel tyst neu barti arall sydd â diddordeb, fel aelod o'r teulu mewn profedigaeth.

Er mwyn helpu pobl i ymgyfarwyddo â'n gwrandawiadau a'n prosesau, mae gwybodaeth ar gael mewn print ac ar-lein i unrhyw un sydd â diddordeb mewn bod yn bresennol mewn gwrandawiad.

Gelwir tystion i'n gwrandawiadau gan y GMC a chan feddygon. Yn ein canolfan wrando, rydym yn darparu cyfleusterau i alluogi'r ddau barti i ofalu am eu tystion, gan gynnwys ystafell aros bwrpasol. Mae llawer o dystion hefyd yn rhoi tystiolaeth o bell.

# Apeliadau


Sut rydym yn ymateb i ddyfarniadau apêl 32
Canlyniadau'r apêl 33




# Apeliadau

Gall y meddyg, y GMC a'r PSA apelio yn erbyn penderfyniad MPT.

Gwrandewir apeliadau gan Lys y Sesiwn yn yr Alban, Uchel Lys Barn Gogledd Iwerddon, neu'r Uchel Lys Barn yng Nghymru a Lloegr.

Os bydd achos yn mynd ymlaen i wrandawiad mewn llys, gall y barnwr wneud y canlynol:

- gwrthod yr apêl,
- caniatáu'r apêl, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, a
    - diddymu penderfyniad y tribiwnlys perthnasol,
    - rhoi penderfyniad y tribiwnlys yn lle penderfyniad arall y gallai'r tribiwnlys fod wedi ei roi neu
    - cyfeirio'r achos yn ôl ar gyfer penderfyniad tribiwnlys MPT newydd.

## Sut rydym yn ymateb i ddyfarniadau apêl

Gall dyfarniadau mewn apeliadau neu heriau fod yn ddefnyddiol wrth egluro materion cyfreithiol ac wrth ddarparu pwyntiau dysgu y gallwn eu defnyddio i wella penderfyniadau tribiwnlysoedd yr MPTS yn y dyfodol.

Rydym yn llunio cylchlythyrau apêl, sy'n crynhoi'r wybodaeth allweddol o ddyfarniadau i aelodau'r tribiwnlys ac yn nodi pwyntiau dysgu neu arferion da. Mae'n bosibl y bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu hefyd mewn hyfforddiant blynyddol.

Hysbysir aelodau'r tribiwnlys sy'n ymwneud â phenderfyniad apêl o'r canlyniad, gan gynnwys canlyniad unrhyw wrandawiad a ailgyfeiriwyd. Gellir cynnig adborth uniongyrchol i aelodau'r tribiwnlys, os oes angen, fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae crynodeb o'r pwyntiau dysgu a gyhoeddwyd yn 2023 ar gael yn adran *Gwneud Penderfyniadau* yr adroddiad hwn (gwelwch Tud. 10).

# Apeliadau

## Canlyniadau'r apêl

- Mae colofnau blwyddyn yn cyfeirio at y dyddiad y daeth gwrandawiadau tribiwnlys i ben, nid pan glywyd apeliadau.

| Apeliadau meddygon | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|
| Llwyddo | 2 | 2 | 1 |
| Diystyrwyd | 6 | 3 | 1 |
| Dilëwyd | 0 | 0 | 0 |
| Tynnwyd yn ôl | 1 | 0 | 1 |
| Ailgyfeiriwyd at MPT | 0 | 0 | 0 |
| I'w glywed | 0 | 4 | 12 |
| **Cyfanswm** | **9** | **9** | **15** |

| Apeliadau'r GMC | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|
| Llwyddo | 9 | 0 | 1 |
| Diystyrwyd | 1 | 0 | 0 |
| I'w glywed | 0 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **10** | **0** | **2** |

| Apeliadau PSA | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|
| Llwyddo | 0 | 0 | 0 |
| Diystyrwyd | 1 | 0 | 0 |
| Ailgyfeiriwyd at MPT | 1 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2** | **0** | **0** |



MPTS Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol

Medical Practitioners Tribunal Service
Seventh Floor
St James's Buildings
79 Oxford Street
Manchester
M1 6FQ

Ffôn 0161 923 6263
Ebost enquiries@mpts-uk.org
Gwefan www.mpts-uk.org

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn fformat neu iaith arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602** neu e-bostiwch ni ar **publications@gmc-uk.org**.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hyn achosi oedi ychwanegol.

*Published July 2024.*
*© 2024 Medical Practitioners Tribunal Service and General Medical Council.*